| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi'r ystodau y mae'n ofynnol i symiau o gosbau penodedig arbennig y gellir eu pennu gan awdurdodau lleol ddod o fewn eu cwmpas. Mae’r Rheoliadau’n darparu hefyd pan gaiff awdurdod lleol drin, fel taliad llawn o gosb benodedig, swm llai na’r swm llawn a ragnodir, a bod y swm sy’n cael ei dalu o fewn cyfnod penodol o amser, na fydd y swm hwnnw’n llai na’r isafswm a ragnodir yn y Rheoliadau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7. Y cyfieithiad Cymraeg ar gyfer "the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005" yw "Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005"; mewn sawl man yn y Rheoliadau defnyddir "Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân". Dylid cywiro hwn lle bynnag y bo’r ffurf anghywir yn ymddangos. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’r rhaglith i’r Rheoliadau a rheoliadau 2(1)(c) a 3(1)(c) yn cynnwys cyfeiriadau at adrannau 43A (4) a (5) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Ychwanegir y darpariaethau hyn yn y Ddeddf honno gan Ddeddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005"). Mae Deddf 2005 hefyd yn darparu, drwy baragraff 15 o Atodlen 4, bod rheoliadau o dan adran 43A i’w gwneud gan yr awdurdod priodol perthnasol, sef y Cynulliad o ran Cymru. Fodd bynnag, ni ddechreuwyd paragraff 15 o Atodlen 4 o ran Cymru ac felly nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwer i ddeddfu o dan

adran 43A. O ganlyniad, mae’r cyfeiriadau at adrannau 43A(1)(a) yn rheoliad 2(1)(c) ac at adran 43A (3) yn rheoliad 3(1)(c) yn ultra vires a dylid eu dileu ynghyd â’r cyfeiriad ym mharagraff (dd) o’r rhaglith a’r troednodyn cysylltiedig. [Rheol Sefydlog 11.7(i)]

Y swm a ragnodir yn nhestun Saesneg rheoliad 3(3) yw £120. Yr hyn sy’n ymddangos yn y testun Cymraeg yw "£XX." [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ar ddiwedd testun Cymraeg rheoliad 5(2)(c) mae "2005" wedi ei hepgor. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’r mân wallau drafftio hyn yn addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 27 Chwefror 2007